# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 20.05.2026 YN Y GANOLFAN, WAUNFAWR I DDILYN CYFARFOD BLYNYDDOL.

**Presennol –** Cynghorwyr

Hawys Tuff(Cadeirydd)
Dafydd Davies
Edgar Owen
Sali Burns
Delyth Jones
Doug Jones
Menna Trenholme
Shoned Rees Griffith (Cofnodi)

**1. Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau –** Cyng ID, Cyng EG, Cyng LD

**3. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 08.04.2026**

Y Cyng DD yn cynnig bod cofnodion y Cyfarfod yn gywir, y Cyng Doug Jones yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 08.04.2026**

**Materion Caeathro** –
**Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon -** Ar 'hold' ar hyn o bryd.
**Gor-yrru** – Parhau i fod yn broblem drwy'r pentref.
**Arwydd Caeathro** – wedi diflanu fel dod i mewn i'r pentref o Caernarfon. Yng MT wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.
**Potiau Blodau** – Cyng MT yn mynd i holi Clwb Garddio yn y pentref neu Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am bris i gadw'r potiau yn daclus.

**Materion Waunfawr** –
**Les tir tu ol i'r Ganolfan** / **Cae Aml-dywydd** –Cyng SB am edrych drwy'r pwyntiau sydd wedi eu codi gan y Cyfreithwyr er mwyn gallu symud ymlaen gyda'r Les.
**Baw Ci** - Parhau i fod yn broblem.
**Gwefan** – Wedi ei diweddaru.
**Tyllau yn y ffordd -** Ffordd Ael y Bryn wedi gorffen. Angen ail beintio llinnellau gwyn/melyn yn y pentref i gyd.
**Arwydd Stad Bod Hyfryd –** Cyng EO wedi archebu un newydd, aros Cyngor Gwynedd i osod arwydd newydd..

**Gor-yrru** – Parhau i fod yn broblem drwy'r pentref.
**Potiau Blodau** – Cyng SB wedi planu blodau yn y potiau o amgylch y pentref. Diolch Sali.
**Lon Garreg Fawr** – Swyddog o Cyngor Gwynedd wedi bod allan i archwilio, llythyrau yn cael eu hanfon i'r tirfeddianwyr.

**Grant Gwynedd Ni –** Cais am grant 2026/27 i fod i mewn erby ganol Mehefin, Clerc wedi rhannu e-byst. Y Ganolfan wedi derbyn dyfynbris o £1,390 i wneud asesiad or ganolfan i'w addasu i'r anabl. Cyngigwyd ga y Cyng EO ac eilwyd gan y Cyng MT y byddai y Cyngor Cymuned yn talu am yr adroddiad oni bai y bod posibl ei gynnwys yn y cais grant. Cyng DD i gyfarfod gyda Swyddog y Cyngor fory i drafod ymhellach.
Syniadau ar gyfer grant flwyddyn yma –

- Camera yn y cae amldywydd wedi ei lincio i'r Ganolfan – Cyng DD i holi SFP os yn bosibl ac y gost.
- Ffenestri/drysau newydd i'r gegin a ganolfan fawr yn y Ganolfan
- Golau Fflachio wrth ddod mewn i'r pentref – Cyng MT wedi gofyn i Clerc Bontnewydd rannu gwybodaeth gyda ni.
- Gerddi Bach – swing babi.

6. **Sedd Wag –** Neb wedi datgan diddordeb hyd yma. Clerc i rannu yr hysbyseb er mwyn ei roid yn yr hysbysfwrdd.

7. **Gerddi Bach –** YGC i dynnu'r ffens i lawr er mwyn gallu torri'r gwair i gyd. Cyng SB wedi bod yna a nodi y gwaith sydd angen ei wneud er mwyn cynnal a chadw yr offer, Clerc i gysylltu hefo MacVenture eto i holi os ydynt am neud y gwaith neu penodi rhywun arall. Grwp Cynefin angen mynediad i'r cae er mwyn gwneud gwaith i system ddwr y tai cyfagos, Clerc wedi dweud y bydd rhaid cael YGC ar y safle hefyd gan bod angen bod yn ofalus hefo'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yn ddiweddar i sortio y broblem llifogydd.

8. **Adroddiadau**

**a. Lloches Bws** – Dal i aros i'r enwau gael eu newid. Lloches bws ger yr hen bost wedi cael ei beintio tu mewn a tu allan. Wedi derbyn ymholiad os oes posibl cael set yn nol yna. Cytunwyd i gael pris am un fetal yna. Clerc i holi.

**b. Y Fynwent** – Mwsog angen cael ei drin, a'r gorlan sbwriel angen ei gwagio. Cafwyd trafodaeth os oedd angen y gorlan sbwriel yna gan fod y Contractwyr yn nodi bod sbwriel cegin yn cael ei wagio yna hefyd weithiau. I'w drafod ymhellach.

**c. Llwybrau –** Dim pellach ar hyn o bryd.

**ch. Cynllun Gwyrfai Gwyrdd** – Clwb ynnni yn fyw a bron i 40 o dai yn yr ardal wedi cofrestru. Cais Cronfa Ynni Glan i fynd i mewn yn fuan. Mwy o wybodaeth ar gwefan gwyrfai gwyrdd neu gan y Cyng DD.

**d. Gwaith atal llifogydd Waunfawr –** Dim i'w adrodd ar hyn o bryd. Gwteri yn y pentref angen eu gwagio a dal i aros llinell wen lawr ochr y ffordd o'r Groeslon lawr i SFP rhag i gar fynd i'r ffoes.

9. **Materion Cynllunio**

**a. Ceisiadau newydd**

| Dyddiad Cofrestru | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**10. Gohebiaeth**

Canolfan Waunfawr – Cae Amldywydd a Asesiad Anabledd
Canolfan Data Menai
Unllais
Theatr Bara Caws
Cyngor Gwynedd – Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Gwynedd
Eco'r Wyddfa
Archwilio Cymru – anfonebau i'w talu
Cyngor Gwynedd – ffordd ar gau
Cyngor Gwynedd – Swyddog Cefnogi Cymunedau newydd i Bro Peris
Cyngor Gwynedd – Taliad Preasept
Archwilio Cymru – Archwiliad
Clear Councils Insurance – yswiriant y Cyngor am 26/27
Cyng DD – Gwyrfai Gwyrdd
Cyngor Gwynedd – ad-daliad llwybrau cyhoeddus

**11. Mantolen 2025-26**

Cynnigwyd fod y mantolen am 2025/26 yn gywir gan y Cyng DD ac eilwyd gan y Cyng EG

**Asesiad Risc a Rheolau Mewnol, Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol**
Cadarnhawyd fod uchod yn gywir am y flwyddyn a derbyniwyd. Trafodwyd a penderfynwyd penodi Cyngor Gwynedd fel archwilydd mewnol am eleni, clerc i gysylltu a hwy.

**11. Materion Ariannol**

**11.1 Arian wedi ei dalu allan**

| | |
|---|---|
| £264.80 | Cyflog Clerc Mawrth & Stamps |
| £52.00 | H M revenue & Customs |
| £290.00 | Aelodaeth Unllais |
| £48.00 | Eco'r Wyddfa |
| £104.00 | H M Revenue & Customs Ebrill & Mai |
| £600.99 | Cyflog Clerc Ebrill & Mai, + Microsoft |
| £2170.00 | G R Services |

**11.2 Arian a dderbyniwyd**

| | |
|---|---|
| £6,000 | Preasept Cyngor Gwynedd |
| £110.00 | Ffi Claddu |

**11.3 Anfonebau i'w talu**

| | |
|---|---|
| £90.00 | Tony Brown peintio safle bws |
| £22.80 | Antur Waunfawr |
| £200.00 | Canolfan Waunfawr |
| £440.00 | Archwilio Cymru |
| £790.00 | G R Services |
| £144.00 | Tony Brown (glanhau safle bws am y flwyddyn 25/26) |
| £144.00 | Cae Chwarae Caeathro (glanhau safle bws am y flwyddyn 25/26) |

| | |
|---|---|
| £300.00 | Rhodd Paned a Sgwrs |
| £200.00 | Rhodd Urdd Gobaith Cymru |
| £200.00 | Rhodd Eco'r Wyddfa |
| £100.00 | Rhodd Amibwlans Awyr Cymru |
| £350.00 | Rhodd Ysgol Brynrefail |
| £100.00 | Rhodd Seindorf Arian Llanrug |
| £100.00 | Rhodd Seindorf Arian Deiniolen |
| £100.00 | Rhodd Gwyl Gerdd Dant |
| £652.50 | Yswiriant 26/27. |

**11.4 Ffioedd Banc**

£0.80 Mawrth - Ebrill

**11.5 TAW**

Clerc wedi arwyddo y ffurflen hefo A Hughes Jones, Dyson & Co i hawlio ad-daliad o TAW 2024/25. Aros cadarnhad drwy'r post, a bydd angen hawlio 25/26 wedyn.

**13. Grantiau/Rhoddion (ychwanegol i cyfarfod diwethaf)**

| | |
|---|---|
| Urdd Gobaith Cymru | - £200 |
| Eco'r Wyddfa | - £200 |
| Panad a Sgwrs | - £300 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | - £100 |

**14. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

Nos Fercher, 24.06.2026, yn y Ganolfan yn Waunfawr.

**15. Materion Aelodau. -**

Cyng EO – Dim wedi ei dderbyn

Cyng SB - Wedi derbyn sylwad bod dim bws o Waun i allu cyraedd Bangor erbyn 9 o'r gloch y bore. Clerc i anfon e-bost i Cyngor Gwynedd i holi. Ymddiheuro ddim yn y cyfarfod nesaf.

Cyng DJ - Dim wedi ei dderbyn

Cyng ID - Dim wedi ei dderbyn

Cyng LD - Dim wedi ei dderbyn.

Cyng MT - Dim wedi ei dderbyn

Cyng DJ - Ymddiheuro ddim yn y cyfarfod nesaf.

Cyng HT - Dim wedi ei dderbyn

Cyng DD- Dim wedi ei dderbyn

Cyng EG- Dim wedi ei dderbyn